



Chartered
Institute of
Housing
Cymru



Cefnogi'r Bil: Llwybr ar gyfer yr hawl i dai digonol yng Nghymru



<https://www.taipawb.org/policy-influencing/backthebill/>

Back the Bill Partnership:

CIH Cymru

Tai Pawb

Shelter Cymru

Mehefin 2024

Cyflwyniad

Ers 2019, mae'r glymblaid Cefnogi'r Bil wedi ymgyrchu i ymgorffori'r hawl i dai digonol yng Nghymru. Yn cynnwys Shelter Cymru, Tai Pawb a Sefydliad Tai Siartredig Cymru, **credwn mai'r unig ffordd o ddatrys ein hargyfwng tai yw newid y ffordd rydyn ni'n meddwl am gartrefi, gan ddechrau drwy eu hystyried fel hawl.** Rydyn ni eisiau cynyddu pwysigrwydd cartrefi ar yr agenda wleidyddol, gan gyflawni strategaeth hirdymor ar gyfer tai, a rhoi hwb i'r newidiadau (gan gynnwys cyllid) i sicrhau bod gan bawb gartref diogel ac addas y gellir ei fforddio.

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r ymgyrch Cefnogi'r Bil wedi ceisio adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymgorffori'r hawl i dai digonol yng Nghymru drwy'r ymchwil ganlynol:

- **Astudiaeth ddichonoldeb i'r hawl i dai digonol**
- **Bil drafft**
- **Yr hawl i dai digonol yng Nghymru: Y sylfaen dystiolaeth**
- **Yr hawl i dai digonol yng Nghymru: dadansoddiad cost a budd**

Mae'r ddogfen hon yn cyfuno'r darnau hyn o ymchwil yn ganllaw ymarferol a hygyrch, gan amlygu sut gellir cyflwyno'r hawl i dai digonol yng Nghymru ac yn hollbwysig, sut gallai edrych.

Yn ystod haf 2024, cyhoeddir Papur Gwyn ar gyflwyno hawl i dai digonol a rhenti teg yng Nghymru. Cyn yr ymgynghoriad hwn, gobeithiwn y gall y canllaw hwn weithredu fel adnodd defnyddiol i'r rheini sydd eisiau **dysgu mwy am sut beth fyddai hawl i dai digonol yng Nghymru.**

I ddangos eich cefnogaeth i'r ymgyrch Cefnogi'r Bil, gallwch addo rhoi eich cefnogaeth fan hyn.



Beth yw'r hawl i dai digonol?

Mae'r hawl i dai digonol yn golygu bod gan bawb yr hawl i fyw yn rhywle mewn diogelwch, heddwch, ac urddas.

Gan gychwyn fel rhan o'r hawl ehangach i safon byw ddigonol drwy Gyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, mae gwledydd ledled y byd yn ei archwilio fwyfwy i ysgogi camau i roi terfyn ar ddigartrefedd a gwella ansawdd cartrefi pobl.

Ceir saith elfen i'r hawl i dai digonol, sef:

Sicrwydd cyfreithiol i ddeiliadaeth

Fforddiadwyedd

Cyfaneddoldeb

Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith

Hygyrchedd

Lleoliad

Digonolrwydd diwylliannol

Ochr yn ochr â'r elfennau hyn, ceir rhyddid a hawliau –

Rhyddid

- Amddiffyn rhag troi allan gorfodol a dinistrio a dymchwel cartref yn fympwyol.
- Yr hawl i fod yn rhydd rhag ymyrraeth fympwyol o ran eich cartref, eich preifatrwydd a'ch teulu.
- Yr hawl i ddewis eich preswylfa, i benderfynu ble i fyw a rhyddid i symud.
- The right to choose one's residence, to determine where to live and to freedom of movement.

Hawliau

- Sicrwydd deiliadaeth
- Adfer tai, tir ac eiddo
- Mynediad cyfartal ac anwahaniaethol i dai digonol
- Cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â thai ar lefel genedlaethol a chymunedol

Rhan 1 –Yr achos dros hawl i dai digonol



✔ Lleihau anghydraddoldeb

Rydyn ni'n gwybod bod y bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dai gwael ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas:

- Mae pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn anghymesur o debygol o fyw mewn tŷ gorlawn ac yn wynebu risg uwch o ddirgartrefedd.
- Mae ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr hefyd yn wynebu anghydraddoldebau o ran tai, oherwydd hiliaeth, gwahaniaethu neu ffactorau strwythurol.
- Mae ymchwil wedi dangos mai un o'r prif rwystrau i unigolion sydd wedi profi cam-drin domestig er mwyn dianc rhag sefyllfaoedd camdriniol yw'r diffyg mynediad at gartrefi diogel a fforddiadwy.
- Mae unigolion o'r gymuned LHDTTC+ hefyd yn wynebu anghydraddoldebau o ran tai, gyda thystiolaeth yn awgrymu bod y gymuned LHDTTC+ bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddirgartref o'i gymharu â'u cyfoedion.
- Mae pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl bedair gwaith yn fwy tebygol o ddweud bod tai gwael yn gwneud eu hiechyd meddwl yn waeth.
- Mae menywod ac yn arbennig rhieni sengl yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan renti uchel yn y sector rhentu preifat.

✔ Gwella cyflenwad a safonau

18%

Mae 18% o denantiaid yn dweud nad oeddent yn byw mewn llety a oedd yn diwallu eu hanghenion oherwydd anabledd. Bydd hawl i dai digonol yn rhoi hwb i gyflenwad ac yn sicrhau bod y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yn diwallu anghenion cymunedau nawr ac yn y dyfodol. **Yn hollbwysig, bydd hyn yn golygu safonau o ansawdd uchel ar draws y sector preifat yn ogystal â'r sector cymdeithasol.**




Dod â digartrefedd i ben

Mae cynlluniau diweddar o ran deddfwraeth ddigartrefedd yn flaengar, ond ceir cwestiynau o hyd ynglŷn â chyllid a'r diffyg brys a buddsoddiad digonol i gynyddu'r cyflenwad. Gall hawl i dai digonol gryfhau'r diwygiadau hyn, gan gynnwys darparu ysgogiadau i sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer gweithredu a chyflenwi. **Byddai hawl i gartref digonol hefyd yn rhoi blaenoriaeth i roi diwedd ar ddigartrefedd cyn gynted â phosibl.**



Cefnogi ein nodau newid hinsawdd




Caiff cynaliadwyedd ei gydnabod gan Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar yr hawl i dai digonol sy'n golygu y dylai cartrefi newydd fod ag allyriadau isel neu sero, wedi'u hadeiladu â deunyddiau cynaliadwy a'u diogelu'n ddigonol yn erbyn trychinebau a thywydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, **gyda thai yn un o'r allyryddion mwyaf, yn gyfrifol am hyd at 21% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr.** Credwn y gall hawl i dai digonol a datgarboneiddio gydweithio, gan ysgogi'r buddsoddiad a'r ewylllys gwleidyddol am newid. Efallai na fydd yn bosib cyflawni un heb y llall.

Rhan 2 – Dull sy'n effeithiol o ran cost

Introducing the right to adequate housing in Wales: cost-benefit analysis

Total benefits to Wales of ending homelessness and improving housing adequacy of £11.5bn

The present value of costs and benefits over 30 years




Mewn adroddiad yn 2019, amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod tai gwael yn costio £95m y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Yn syfrdanol, amcangyfrifir mai cost tai gwael ar draws economi Cymru yw £1bn y flwyddyn. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod tai gwael yn costio, ond rydyn ni'n gwybod nawr bod hawl i dai digonol yn arbed arian i ni.

Costau a buddion

Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgorffori'r hawl i dai digonol yng Nghymru yn cynnwys:

- Adeiladu cartrefi
- Sicrhau llety addas i aelwydydd digartref, fel blaendaliadau neu
- ôl-ddyledion rhent, yn ogystal â'r rhent a dalwyd.
- Cymorth i aelwydydd
- Addasiadau tai





Introducing the right to adequate housing in Wales

would generate £11.5 billion in benefits while costing £5 billion



£5.5 billion
Improved wellbeing



£2 billion
Cost savings to Local authorities



£1 billion
Savings to NHS Wales



£1 billion
Savings to the Criminal justice system



£1 billion
Additional economic activity



£1 billion
Value of new housing

Costs and benefits are calculated in present value terms over the next 30 years. See Alma Economics - The right to adequate housing in Wales: cost-benefit analysis (2022) for more details.

* This is a cautious estimate that captures savings to specific NHS Wales services but does not fully account for whole-NHS long-term savings.



Based on research by alma economics



Cyllido hawl i dai digonol

Nid oes gan unrhyw wlad yr arian i gyflawni'r hawl i dai digonol dros nos. Yn yr un modd, ni all y cyflenwad o gartrefi da **gael eu hadeiladu neu eu haddasu dros nos**. Nid yw hynny'n golygu bod yr hawl i dai digonol yn amhosib. Yn hytrach, caiff ei gyflawni drwy wireddu blaengar.

Mae **gwireddu blaengar** yn broses sy'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i'r llywodraeth ymrwymo'r adnoddau mwyaf posib sydd ar gael, gan gynnwys tir, technoleg, staff, a chyllid, dros amser tuag at wireddu'r hawl. Ac yn hollbwysig, i beidio â chymryd unrhyw fesurau a allai wrth-ddweud yr hawl honno. Mae hyn yn golygu bod hawl i dai digonol yn nod polisi hirdymor, cyraeddadwy. Credwn y bydd cyflwyno'r hawl mewn cyfraith yn ffordd i ysgogi'r buddsoddiad sydd ei angen.

Rhan 3 – Sut beth allai fod?

Canllawiau ar gyfer gweithredu'r hawl i dai digonol

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cynhyrchu canllawiau i weithredu'r hawl i dai digonol. Amlygir yn y newidiadau deddfwriaethol, polisi a strategol isod:

- Ymgorffori tai fel **hawl** – cydnabod y newidiadau cyfreithiol sydd eu hangen i adlewyrchu hyn.
- **Cymryd camau ar unwaith i sicrhau y gwireddir yr hawl i dai mewn ffordd flaengar**, yn unol â safon rhesymoldeb – camau pendant gan gynnwys camau gweithredu ac amserlenni sy'n targedu adnoddau digonol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.
- Sicrhau **cyfranogiad ystyrlon** wrth gynllunio, gweithredu a monitro polisiau a phenderfyniadau tai.
- Gweithredu **strategaethau cynhwysfawr** ar gyfer gwireddu'r hawl i dai – Rhaid i strategaethau tai nodi nodau clir, canlyniadau, cydlyniant a nodi sut gellir goresgyn rhwystrau.
- Dod â digartrefedd i ben yn yr amser byrraf posib a rhoi'r gorau i wneud **digartrefedd yn drosedd**.
- **Mynd i'r afael â gwahaniaethu a sicrhau cydraddoldeb** – gan gynnwys mesurau positif i sicrhau mynediad at dai, cael gwared ar wahaniaethu ym maes tai, a mynd i'r afael â materion ynglŷn â chartrefi hygyrch.
- **Sicrhau cydraddoldeb rhywedd ym maes tai** – pwyslais penodol ar anghydraddoldeb mewn perthynas â cham-drin domestig a thai, cyflenwad a chyfranogiad wrth gynllunio tai a chynllunio cymunedol.
- **Sicrhau capasiti ac atebolrwydd llywodraeth leol** – cydlynu cynlluniau, strategaethau tai lleol wedi'i seilio ar hawliau dynol, a chyllid digonol i weithredu'r newidiadau hyn.
- Sicrhau bod yr hawl i dai yn hysbysu ac yn ymatebol i newid hinsawdd ac yn **mynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng hinsawdd**.
- Sicrhau **monitro effeithiol**.
- Sicrhau **mynediad at gyfiawnder ar gyfer pob agwedd ar yr hawl i dai**.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod y rhain yn egwyddorion lefel eithaf uchel o ran newidiadau y gellid disgwyl iddynt ddigwydd yng Nghymru, felly mae'r adran nesaf yn ceisio ymhelaethu ar sut allai fod yn ymarferol. Mae'r syniadau hyn yn cael eu cyflwyno i'w trafod ac i ysgogi syniadau a thrafod pellach; bydd cydnabod y dull gweithredu, bydd yr amserlen yn dibynnu ar ddewisiadau gwleidyddol y llywodraeth(au) sydd mewn grym.

Y Bil Drafft


Mae ein hastudiaeth achos Cefnogi'r Bil yn ystyried tri opsiwn ymgorffori – yn anuniongyrchol drwy ddyletswydd sylw dyladwy, yn uniongyrchol drwy ddyletswydd cydymffurfio orfodadwy neu fabwysiadu dull deuol. Credwn fod cyfuno'r ddau gynnig yn rhoi opsiynau i sicrhau fframwaith rhagweithiol cryf ar gyfer llunio polisiau a gorfodi cryf os yw'r hawl i dai yn cael ei dorri. Mae ein Bil Drafft yn dangos beth gellid ei gyflawni mewn deddfwriaeth.

Mae ein dyletswydd sylw dyladwy yn y Bil yn sicrhau bod gwneuthurwyr polisi yn ystyried yr hawl i dai o ddifri wrth wneud polisi neu benderfyniadau (fel cyllidebau). Cefnogir hyn gan ystod o fecanweithiau fel asesiadau o'r effaith ar hawliau tai, a strategaeth hawliau tai. Lle nad oes sylw dyladwy i sicrhau bod y polisi tai yn cael ei weithredu'n gywir, ceir cyfleoedd am drefniadau gwneud iawn i unigolion neu grwpiau sydd wedi'u heffeithio'n andwyol.

Yn ogystal â'r hyn a amlinellwyd yn ein bil drafft, credwn y byddai'r newidiadau canlynol yn digwydd:

BETH ALLAI NEWID A SUT?





NEWID AGWEDDAU AR SAIL GYFREITHIOL

Mae gormod o bwyslais o hyd ar bwy sy'n haeddu ochr yn ochr â'r rhai nad ydynt yn haeddu cymorth. Arweiniodd y broses o fabwysiadu'r hawl i dai digonol at ddatblygu Tai yn Gyntaf a'r gostyngiad yn niferoedd digartrefedd yn y Ffindir.

NEWID DRWY STRATEGAETH SYSTEM GYFAN Y GELLIR EI CHYFLAWNI A'I MONITRO'N LLAWN

mae'r hawl i dai digonol angen llywodraethau i gynhyrchu strategaeth a chynllun sydd wedi'u costio'n llawn, dros amser, ar sut bydd yr hawl i dai yn cael ei gwireddu yng Nghymru drwy newidiadau i'r system dai yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys digartrefedd, cyflenwad, y sector rhentu preifat, ansawdd a safonau a thai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Byddai angen i Lywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd drwy gyhoeddi adroddiadau cydymffurfiaeth i'r Senedd. Byddai'r ddyletswydd i ystyried y system gyfan yn golygu na allai'r llywodraeth lunio cynllun sy'n canolbwyntio ar ddigartrefedd yn unig, heb ystyried elfennau eraill.

CYNYDDU CYFLENWAD

mae'r hawl i dai yn cynnig ysgogiadau ychwanegol i helpu i roi hwb i'r cyflenwad tai drwy amrywiaeth o adnoddau. Nid yw'r ddyletswydd i ddefnyddio'r adnoddau mwyaf posib sydd ar gael wrth gyflawni'r cynllun uchod, er enghraifft, yn ymwneud â'r gyllideb yn unig ond hefyd argaeledd tir, y gweithlu, y sector rhentu preifat ac adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i wireddu'r hawl. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ddangos tystiolaeth o sut mae'n bwriadu defnyddio adnoddau o'r fath a chael gwared ar unrhyw rwystrau. Byddai atebolrwydd am benderfyniadau o'r fath yn cynyddu, oherwydd byddai Llywodraeth Cymru yn rhwym i ddyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau.

EFFAITH AR DAI A CHYLLIDEBAU TRAWSLYWODRAETHOL

Byddai'r hawl i dai yn cynnig ysgogiadau ychwanegol i wirioneddol fuddsoddi mewn tai a digartrefedd. Byddai gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i ddangos tystiolaeth o sut maent wedi ystyried effaith unrhyw benderfyniadau cyllidebol ar yr hawl i dai.

Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i ddefnyddio'r adnoddau mwyaf posib sydd ar gael, gwireddu blaengar, dim gwrthdroi, ac effaith ar unrhyw gynlluniau. Yn fras, byddai'r cabinet yn fwy atebol am y penderfyniad y mae'n ei wneud ar dai.

Ar hyn o bryd, ar gyfartaledd ers 2006, dim ond 2.2 % o'n cyllideb sydd wedi'i wario ar dai, er gwaethaf argyfwng tai a digartrefedd ac er gwaethaf

tystiolaeth bod buddsoddi mewn tai yn

creu arbedion mawr mewn

meysydd eraill. Byddai angen

Asesiad o'r Effaith ar Dai ar

unrhyw gynllun am

deddfwriaeth neu bolisi

neu ddyraniad cyllidebol

sy'n debygol o gael effaith

uniongyrchol neu

anuniongyrchol ar dai yng

Nghymru hefyd. Gall cael y

broses hon roi achos cryfach

dros yr angen am gymorth

ataliol i helpu pobl i aros yn eu

cartrefi ac osgoi digartrefedd yn y lle

cyntaf.

MWY O ATEBOLRWYDD

Byddai mwy o atebolrwydd am benderfyniadau tai yn cynnig mwy o gyfle am graffu, trafodaeth gyhoeddus ac eiriolaeth tai. Gallai deddfwriaeth hawl i dai gynnwys mecanweithiau fel cyhoeddi prif benderfyniadau asesiadau o'r effaith ar hawliau tai, adroddiadau cynnydd a chydymffurfiaeth er mwyn i'r Senedd graffu arnynt dair gwaith y flwyddyn, gofynion i gynnwys yn llawn y rhai sydd â phrofiadau personol o faterion tai ac, fel dewis olaf absoliwt – yr hawl i her gyfreithiol a chymau gwneud iawn.

SECTOR TAI WEDI'I RYMUSO

Y newidiadau sydd eu hangen i wella gallu'r sector i herio Llywodraeth Cymru i ddiwallu ei ymrwymadau; gwella gallu sectorau a chymunedau i herio Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei hymrwymadau.

YMGYFREITHA

Mae tystiolaeth o Gymru a'r Alban yn dangos nad oes llawer o risg y bydd deddfwriaeth hawliau dynol yn arwain at 'ddilyw' o achosion cyfreithiol; ond mae darparu mecanweithiau i bobl arfer eu hawliau yn dylanwadu ar newidiadau polisi ac yn y pen draw yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl. Mae ein cynigion yn awgrymu cyflwyno'r hyn a elwir yn 'gymal dileu' mewn deddfwriaeth ar yr hawl i gartref, gan alluogi'r llywodraeth ac awdurdodau i ganolbwyntio ar gynnydd a chyflawniad drwy lunio polisiau yn y blynyddoedd cychwynol.

Ffyrdd rhyngwladol o ymgorffori

Gall deall beth sydd wedi newid mewn mannau eraill helpu i egluro pa opsiynau ymgorffori y gellid eu rhoi ar waith yng Nghymru:

Y Ffindir

Wedi'i gyflwyno yn 2000, mae cyfansoddiad Y Ffindir yn cynnwys hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys yr hawl i dai), gan sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am warchod yr hawliau hynny. Mae'r hawliau hyn yn cael eu deddfu drwy ddeddfwriaeth gyffredin ac yn cael eu hystyried yn draddodadwy gan y llysoedd. Mae pob cyfraith yn cael ei hadolygu gan Bwyllgor Cyfraith Gyfansoddiadol y Senedd, cyn ei deddfu i asesu a yw'r gyfraith yn gyson â'r Cyfansoddiad. Mae'r llysoedd yn gwarchod hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol drwy naill ai ddarparu iawndal mewn achosion lle profwyd y cafodd yr hawliau hynny eu torri gan y llywodraeth neu'r awdurdodau lleol, neu drwy adolygu'n farnwrol benderfyniadau cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hawliau sy'n cael eu gwarchod yn gyfansoddiadol. Arweiniodd yr hawl i dai at gam sylweddol yn natblygiad Tai yn Gyntaf gan ddangos sut gall newid polisi a chyfreithiol gydweithio.



Seland Newydd

Yn Seland Newydd, nid adeiladu unedau tai yw dyletswydd y Wladwriaeth, ond sicrhau bod yr hawl i dai yn cael ei chynnal yn y wlad.

Adlewyrchir agweddau arno mewn deddfau a pholisïau cenedlaethol, yn hytrach na deddfwriaeth unigol. Ers 2013, mae'r Fenter Cartrefi Iach (HHI) wedi cefnogi teuluoedd sydd â chyflyrau iechyd penodol neu fenywod beichiog i gael mynediad at dai cynnes, sych ac iach.

Canada

Mae'r Eiriolwr Tai Ffederal yn gorff gwarchod annibynnol, amhleidiol, sydd wedi'i rymuso i ysgogi camau ystyrlon i fynd i'r afael ag anghenion tai a digartrefedd yng Nghanada. Nod gwaith yr Eiriolwr yw ysgogi newid ar faterion tai systemig allweddol a hyrwyddo'r hawl i dai i bawb yng Nghanada.



Mae'r Eiriolwr yn gyfrifol am wneud argymhellion i wella cyfreithiau, polisiau a rhaglenni tai Canada fel eu bod yn galluogi pobl a theuluoedd yng Nghanada i gael mynediad at dai digonol, fforddiadwy a diogel sy'n diwallu eu hanghenion. Mae mandad yr Eiriolwr yn cael ei arwain gan ddull sy'n seiliedig ar hawliau dynol, sy'n gwerthfawrogi cyfranogiad, atebolrwydd, peidio â gwahaniaethu, tegwch, tryloywder, grymuso, a pharch at gyfreithiau a rhwymedigaethau hawliau dynol.

Rhan 4 – Casgliadau

Credwn fod rheidrwydd moesol ac ariannol clir i'r hawl am dai digonol yng Nghymru. Am rhy hir, mae'r Llywodraeth yng Nghymru wedi gwyro yn ei agwedd at dai. Mae diffyg cynllun a buddsoddiad hirdymor, ochr yn ochr ag argyfyngau byr dymor annisgwyl wedi ein gadael gydag argyfwng tai yng Nghymru, a fydd yn gwaethygu heb gamau trawsnewidiol. Hawl i dai digonol fydd y newid sy'n fan cychwyn i'r trawsnewidiad hwn.

Yr haf hwn, cyhoeddir ymgynghoriad Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag opsiynau i ymgorffori hawl i dai digonol. Gobeithiwn y gall y syniadau a gyflwynir yn y canllaw hwn weithredu fel man cychwyn ar gyfer rhai o'r sgorsiau.

Er ein bod yn gwybod bod yna lawer o gyfleoedd o ran yr hawl i dai digonol, mae yna feysydd hefyd lle byddai mwy o ymchwiliadau neu waith ymchwil o fudd. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd orau o ymgorffori profiadau bywyd a'r ffordd orau o gydbwyso gorfodaeth gyda chymorth i ddarparwyr a buddion i gymunedau Cymraeg traddodiadol.

Wrth i ni symud ymlaen a cheisio datrys yr argyfwng tai, mae partneriaid Cefnogi'r Bil yn croesawu trafodaeth ynghylch y syniadau a gyflwynir yn y canllaw hwn ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid.



Chartered
Institute of
Housing
Cymru



Back the Bill Partnership:

Tai Pawb

CIH Cymru

Shelter Cymru

#BackTheBill

Mehefin 2024

<https://www.taipawb.org/policy-influencing/backthebill/>